# Bank of England

## Sut i wirio eich arian papur

Sganiwch fi >

bankofengland.co.uk/banknotes

## Gellir gwirio ein holl arian papur gan ddefnyddio yr un ddwy nodwedd allweddol

1

### Newid yn y ddelwedd hologram


Gwyrwch yr arian papur o ochr i ochr. Gwiriwch y **geiriau'n newid** rhwng gwerth yr arian papur '**Five**', '**Ten**', '**Twenty**' neu '**Fifty**' a '**Pounds**'.

£5 £10 £20 £50




O fewn y ddau sgwar aur ar du blaen y papur £50, mae'r **delweddau'n newid** rhwng y symbol '**50**' a '**£**' pan y mae'r arian papur wedi'i wyro.

£50








2

### Ffenest dryloyw


Edrychwch ar y ddelwedd fetaleg dros y ffenest. Gwiriwch fod y ffoil yn **aur ar du blaen** y **£5** a'r **£10**, **aur a glas** ar du blaen y **£20** ac **aur a gwyrdd** ar du blaen y **£50**. Mae'r ffoil yn **arian ar gefn** yr holl arian papur.

£5 £10 £20 £50



Edrychwch am **ail ffenest fechan** ar gornel gwaelod papur **£20** a **£50**.

£20 £50







HTCYB13A3

## Gwiriwch fwy o nodweddion diogelwch



### Darn ffoil lliw

Ar gefn yr arian papur, yn union y tu ôl i'r goron arian ar y tu blaen, mae darn ffoil metalig. Mae'r ffoil yn wyrdd ar y papur £5, yn gopr ar y papur £10, yn biws ar y papur £20 ac yn goch ar y papur £50.



### Portread y Frenhines yn y ffenest dryloyw

Mae portread o'r Frenhines wedi'i argraffu yn y ffenest gyda'r enwad a 'Bank of England' wedi ei argraffu ddwywaith o amgylch yr ymyl.



### Darn ffoil arian

Mae darn ffoil arian yn cynnwys delwedd 3D o goron y coroni. Fe ddewch o hyd i hwn uwchben y brif ffenest dryloyw ar du blaen yr arian papur.




### Teimlad y polymer a phrint ar godi

Mae ein arian papur wedi cael ei argraffu ar bolymer, sy'n ddeunydd plastig tenau a hyblyg. Ar du blaen yr arian papur, gallwch deimlo print ar godi ar y geiriau 'Bank of England' ac ar y gornel dde ar y gwaelod, o amgylch y rhifau '5' a '10', neu dros y ffenest lai ar bapur £20 a £50.



### Ansawdd yr argraffiad

Mae'r llinellau a lliwiau argraffedig ar yr arian papur yn fain a chlir, heb ysbrychu nag ymylon aneglur. Os ydych chi'n defnyddio chwydd-wydr, fe welwch werth yr arian papur wedi ei ysgrifennu mewn llythrennau bychain a rhifau dan y portread o'r Frenhines.



### Rhifau uwchfioled

Dan olau uwchfioled o ansawdd da, mae'r gwerth yn ymddangos mewn coch a gwyrdd llachar ar du blaen yr arian papur, wrth ei osod yn erbyn cefndir mwy di-liw.

# Bank of England

# Sut i wirio eich arian papur

Sganiwch fi >

bankofengland.co.uk/banknotes

## Beth i'w wneud os ydi'ch busnes chi'n derbyn arian papur ffug

Mae'n help i gael polisi cwmni eglur ar beth ddylai staff wneud os ydynt yn derbyn arian papur ffug. Gall hyn osgoi colled ariannol i'ch busnes ac amddiffyn aelodau staff.

### Yr ymarfer gorau ydi i ddilyn y camau hyn:

**Gafodd yr arian papur ffug ei ddarganfod ar ôl i'r cwsmer adael?**

- **Do** → Ewch ag ef i'ch banc fel arian papur ffug amheus neu gysylltwch â'r heddlu.
- **Naddo** ↓

Ydi'r aelod staff yn teimlo dan fygythiad?

- **Ydi** → Gwrthodwch yr arian papur a gofyn am daliad ar ffurf arall.
  - Cysylltwch â'r heddlu pan mae'n ddiogel gwneud hynny.
- **Nac ydi** ↓

Cadwch yr arian papur, rhowch dderbynneb i'r cwsmer a gofynnwch am daliad ar ffurf arall.

- Rhowch wybod i'r cwsmer y byddent yn cael eu had-dalu os ydi'r arian papur yn ddilys.
- Ewch â'r arian papur i'r banc fel arian ffug amheus neu gysylltwch â'r heddlu.

## Ymunwch â'n Cynllun Gwirio Arian Papur am ddim

Diogelwch eich busnes rhag arian papur ffug a gwnewch yn siŵr eich bod yn gwybod am y newyddion arian papur diweddaraf.

### Mae'r Cynllun Gwirio Arian Papur yn eich helpu chi i:

- Hyfforddi eich staff fel eu bod yn gallu gwirio arian papur yn hyderus pan ar bwynt gwerthu
- Wneud yn siŵr eich bod yn gwybod y diweddaraf ynglŷn â'r ymarfer gorau
- Sicrhau bod eich staff yn gwybod beth i'w wneud gydag arian parod ffug
- Ddysgu am ddatblygiadau pwysig ynglŷn ag arian papur

Ymunwch â'n Cynllun Gwirio Arian Papur: bankofengland.co.uk/banknote-checking-scheme

Peidiwch â gadael i arian papur ffug fod yn gost i'ch busnes, i'ch cwsmeriaid na'ch enw da.

## Cyngor a gwybodaeth

### Sut ydw i'n cyfnewid arian papur Bank of England sydd wedi'i dynnu o gylchrediad?

**Yn Swyddfa'r Post** – Gall Swyddfa'r Post dderbyn arian papur wedi'i dynnu o gylchrediad fel taliad am nwyddau neu wasanaethau neu fel mewndaliad i unrhyw gyfrif banc y gallwch gael mynediad iddo. Ar ôl 15 Medi 2022, byddwch yn gallu cyfnewid arian papur wedi'i dynnu o gylchrediad am arian papur newydd mewn rhai canghennau Swyddfa'r Post.

**Yn eich banc** – Os oes gennych chi gyfrif banc DU, y modd symlaf a chyflymaf i gyfnewid eich arian papur fydd i chi eu mewndalu i mewn i'ch banc.

**Gyda Bank of England** – gallwch wastad cyfnewid arian papur wedi'i dynnu o gylchrediad yn Bank of England.

bankofengland.co.uk/banknotes/exchanging-old-banknotes

### Pryd dyliwn i wirio'r arian papur?

Gwiriwch yr arian papur wrth i chi eu derbyn. Mae'n bwysig bod yn ofalus mewn sefyllfaoedd ble na allwch weld yr arian papur yn glir.

### Beth ddyliwn i wneud os ydw i'n meddwl bod gen i arian papur ffug?

Os ydych chi'n meddwl bod gennych arian papur ffug, os gwelwch yn dda, ewch ag ef i'r banc fel arian papur ffug amheus neu gysylltwch gyda'r heddlu. Byddent yn rhoi derbynneb i chi ac yn anfon yr arian i ni i'w ddehongli. Os ydyw'n ddilys, cewch eich ad-dalu.

Os ydych chi'n fanwerthwr neu'n fusnes, gweler gyferbyn am gyngor ar beth i'w wneud ag arian papur ffug.

### Alla i ddefnyddio datgelydd-bin i wirio os ydi arian papur yn ddilys?

Na allwch – nid yw datgelydd-bin yn dod o hyd i arian papur ffug wedi'i argraffu ar polymer.

### Pa fath o lamp uwchfioled (UV) ddyliwn i ei defnyddio i wirio os ydi arian papur yn ddilys?

Mae lamp sy'n taflu golau ar gyflymder o tua 365 nanometr yn ddelfrydol ar gyfer gwirio nodweddion fflworoleuol ar ein holl arian papur. Nid ydyn ni'n cynghori defnyddio dyfeisiadau LED, megis datgelyddion cyffelyb i ffob allwedd oherwydd eu bod yn aml yn taflu golau uwch na 365 nanometr. Mae rhai ffugwyr arian yn ceisio copio ein nodweddion UV, felly gwnewch yn siŵr bod eich staff yn gwybod yn union beth i chwilio amdano, fel y lliwiau rydyn ni'n eu defnyddio yn y rhifau UV.

### Ddyliwn i ddefnyddio peiriant gwirio arian papur?

Mae ein holl arian papur yn gallu cael ei ddilysu o edrych arno, ei wyro a'i deimlo. Os ydych chi'n dewis defnyddio peiriant i wirio arian papur, gwnewch yn siŵr ei fod yn gallu adnabod yr arian papur ffug diweddaraf. Mae ein fframwaith profi-peiriannau yn galluogi gwneuthurwyr i brofi eu peiriannau gydag arian papur ffug i sicrhau eu bod ond yn derbyn arian papur dilys. Rydyn ni'n cyhoeddi rhestr o fodelau a fersiynau meddalwedd sy'n cyraedd ein safonau.

bankofengland.co.uk/banknotes/retailers-and-businesses/testing-automatic-banknote-handling-machines

### Beth ddyliwn i wneud gydag arian papur wedi'i ddifrodi?

Fe ad-dalwn ni werth yr arian papur dilys sydd wedi ei ddifrodi'n ddamweiniol (yn ddibynnol ar ddigon o dameidiau a gweddillion). Yn gyffredinol, dylai fod tystiolaeth o hanner y darn papur o leiaf.

bankofengland.co.uk/banknotes/damaged-and-contaminated-banknotes

### Ble galla i ddod o hyd i wybodaeth am holl arian cyfredol y DU?

Os gwelwch yn dda, ewch i: bankofengland.co.uk/banknotes/uk-notes-and-coins

HTCYB13A3